

MANIFFESTO MANNAU GLAS 2021

AR GYFER ADFERIAD GWYRDD

"Mae anweithgarwch corfforol yn costio £35m y flwyddyn i GIG Cymru."

Public Health Wales

"Mae mynediad i'r amgylchedd naturiol hwn, ac ymgysylltu ag ef, yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd cadarnhaol, gan gynnwys gwell iechyd corfforol a meddyliol, a llai o risg o glefyd cardiofasgwlaidd a phroblemau iechyd eraill."

Iechyd Cyhoeddus Cymru

"Mae ein mannau awyr agored yn perthyn i bob un ohonom. Maent yn adnodd gwerthfawr i holl bobl Cymru, yn gyfle gwerthfwr i wella ein llesiant corfforol a meddyliol, a'n helpu i fyw bywydau hirach, iachach a hapusach."

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae bod yn egnïol yn yr awyr agored yn ein gwneud ni'n hapusach, yn ein galluogi i wrthsefyll salwch yn well [i] ac yn hanfodol i'n hiechyd meddwl a'n lles . Mae 28% o oedolion yn cyrraedd y lefel o weithgarwch corfforol a argymhellir drwy weithgareddau awyr agored [ii]. Gallai gwella cyfleoedd hamdden yn yr awyr agored gynyddu lefelau gweithgarwch yn sylweddol.

Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at bwysigrwydd treulio amser ym myd natur: 'mannau gwyrdd'[iii] ; ac mae ymchwil [iv] yn dangos bod ymarfer corff a gweithgareddau hamdden mewn mannau glas[v] yn gallu arwain at hyd yn oed mwy o fanteision i iechyd a lles. Mae hefyd wedi tynnu sylw at y cyfleoedd anghyfartal a geir yng Nghymru i'r cyhoedd ymgysylltu â byd natur. Mae llu o fannau gwyrdd a glas ar gael yng Nghymru i bawb; ond dim ond 8% o'r tir [vi] a gwmpesir gan yr 'Hawl i Grwydro' o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, ac mae llawer o bobl, yn cynnwys y rhai mwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas, yn methu cael mynediad iddo. Nid yw pawb am ddringo mynyddoedd neu grwydro ar weundiroedd; ond byddai llawer yn hoffi mynd am dro hamddenol a mwynhau picnic ar lan y dŵr yn gwylio'r bywyd gwyllt o bosibl. Mae amser a dreulir ym myd natur yn hanfodol i'n hiechyd a'n lles, a dylai pawb gael mynediad cyfartal i'r manteision hyn. Mae mynediad i ddyfroedd mewndirol yng Nghymru hyd yn oed yn waeth, gyda llai na 4% ar gael i'r cyhoedd ei fwynhau heb ofn cael eu herio [vii] . Mae'n anodd rhesymu a chyfiawnhau'r ffaith bod y mwyafrif o'r cyhoedd yn cael eu cyfyngu i ganran fach o'r mannau hyn, ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at yr amodau gorlawn a geir mewn safleoedd allweddol.

Mae'r gydberthynas rhwng pobl a byd natur yn symbiotig. Mae angen byd natur ar bobl; yn yr un modd, mae byd natur yn dibynnu ar ymgysylltiad cadarnhaol ac amddiffyniad y cyhoedd. Mae ein mannau gwyrdd a glas dan fygythiad cyson o gamddefnydd, esgeulustod, camreoli, datblygu a llygredd. Mae'r cyhoedd sy'n chwarae eu rhan yn cynnig 'llygaid a chlustiau' ar lawr gwlad, a llais cryf i amddiffyn yr amgylchedd.

Wrth ddod allan o'r pandemig i wynebu'r her fwy a gyflwynir gan y newid yn yr hinsawdd; mae ein cydberthynas â'r amgylchedd yn hollbwysig. Mae angen i ni feithrin diwylliant o ymgysylltu â byd natur, drwy sicrhau mynediad agored a theg, wrth wraidd ein holl gymunedau.

Mae llywodraethau olynol yng Nghymru wedi cydnabod yr angen, ac wedi gwneud datganiadau i anelu atynt, ond nid ydynt wedi cymryd y camau sydd eu hangen ar gyfer newid. Mae ein maniffesto yn nodi'r camau allweddol i sicrhau newid, gan lywodraeth sydd â'r ewyllys gwleidyddol i gyflawni hynny.

[i] Public Health Wales 2018 Creating healthier places and spaces for our present and future generations. http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Creating healthier places spaces.pdf

[ii] NRW State of Natural Resources Report (SoNaRR) 2016

[iii] 'Green space' is shorthand for both vegetated land - parks, community gardens, trees, woodlands and hedges, informal spaces, allotments and food growing sites - and areas of water, such as rivers, canals, lakes and ponds. The definition also includes the sea shore, maintained for the recreation and enjoyment of communities in our villages, towns and cities. NRW 2020

[iv] Amoly et al, 2014 Green and Blue Spaces and Behavioural Development in Barcelona Schoolchildren: The BREATHE Project

[v] For the purpose of this paper, we use 'bluespace' when we refer specifically to water and waterside.

[vi] Countryside and Rights of Way (CRoW) Act 2000 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/37/contents

[vii] NRW figure extrapolated from: 'University of Brighton 2008 A Strategic Plan for Water Related Recreation in Wales

MANIFFESTO DYFROEDD CYMRU:

Ein gweledigaeth yw Cymru lle...

- Caiff yr amgylchedd a'r dirwedd eu diogelu er budd y cyhoedd a byd natur.

- Mae gan bawb le iach a deniadol i fyw ynddo; gyda chysylltiadau teithio llesol; mannau gwyrdd cysylltiedig o fewn pellter cerdded hawdd i'r cartref; a lle rhoddir blaenoriaeth i'r amgylchedd, treftadaeth, a mynediad i fannau gwyrdd a glas.

- Mae gan bawb hawl i fwynhau manteision corfforol a manteision lles cyfleoedd hamdden cynaliadwy mewn mannau gwyrdd a glas mewn ffordd gyfrifol ac am ddim.


- Caiff y cyhoedd eu hannog a'u grymuso i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r amgylchedd, gan gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain, gan god ymddygiad a gaiff ei orfodi'n gyfreithiol sy'n nodi cyfrifoldebau pob parti.

- Mae dealltwriaeth o fyd natur, diogelwch yn yr awyr agored ac asesiad o risgiau a manteision yn sail i addysg ar bob lefel.

- Ceir camau allweddol i'r llywodraeth gyflawni'r maniffesto hwn o dan bob adran fel pwyntiau bwled glas.

CYMRU LLE CAIFF YR AMGYLCHEDD A'R DIRWEDD EU DIOGELU ER BUDD Y CYHOEDD A BYD NATUR.

Er bod llywodraethau olynol wedi cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd a byd natur; mae mannau gwyrdd a glas Cymru yn parhau i gael eu hesgeuluso a'u camddefnyddio. Mae'r rheoliadau presennol yn annigonol i atal llygredd a datblygiad sy'n bygwth ein mannau gwyrdd a glas. Rhaid i lywodraeth nesaf Cymru gymryd camau ar unwaith i atal byd natur rhag cael ei ddifrodi; adfer ein hamgylchedd; a sicrhau mynediad teg i fyd natur i holl bobl Cymru.



Rhyddhau a ganiateir heb ei drin carthffosiaeth i afonydd Cymru yn cymryd gosod dros filoedd o oriau yr un flwyddyn [viii]

CAMAU ALLWEDDOL

CYNLLUNIO: MYND I'R AFAEL Â DEDDFWRIAETH GYNLLUNIO I DDIOGELU MANNAU GWYRDD A GLAS MEWN MODD CADARN.

- Diogelu tirweddau dynodedig yn gadarn o dan y gyfraith.
- Ei gwneud yn ofynnol i'r holl benderfyniadau cynllunio fod yn seiliedig ar ragdybiaeth yn erbyn datblygu mannau gwyrdd.
- Dim adeiladu ar orlifdiroedd nac mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd.
- Rhoi mesurau sy'n gyfeillgar â byd natur ar waith i liniaru ac atal llifogydd.

LLYGREDD: MAE CARTHION, DŴR FFÔ AMAETH-YDDOL A LLYGRYDDION ERAILL YN PERYGLU'R CYHOEDD A BYWYD GWYLLT.


- Rhoi'r gorau i ganiatáu i garthion gael eu gollwng i afonydd.
- Ei gwneud yn ofynnol i bobl roi gwybod am garthion neu fathau eraill o lygredd mewn amser real.
- Afonydd cydnerth lle gall byd natur ffynnu; ac sy'n addas ar gyfer ymdrochi; i gael eu gwneud yn ofyniad, nid yn ddyhead; gan safonau cadarn o ran ansawdd dŵr.
- Rhoi trefniadau cadarn a digonol ar waith ar gyfer monitro ansawdd dŵr, er mwyn olrhain llygredd i'w darddle; a sicrhau y gellir cymryd camau amserol.
- Creu, ehangu, a diogelu lleiniau clustogi afonol, fel rhwystrau i atal llygredd ac i ddarparu coridorau ar gyfer bywyd gwyllt a mynediad hamdden.

ARIAN CYHOEDDUS: RHAID IDDO GAEL EI DDEF-NYDDIO ER BUDD Y CYHOEDD.

- Dylai pob taliad i berchnogion tir neu reolwyr tir fod yn amodol ar gydymffurfiaeth â safonau amgylcheddol a gofynion o ran mynediad i'r cyhoedd.

[viii] Dŵr Cymru Welsh Water 2019 Combined Sewer Overflows discharge data https://www.dwrcymru.com/en/our-services/wastewater/combined-sewer-overflows





Llygredd mewn llednant i'r Afon Gwy wedi lladd cannoedd o bysgod i mewn



Mae cwmni adeiladu yn Ne Cymru wedi cael dirwy o dros £32,000 wedi iddo gyfaddef bod dŵr ffo o un o'i safleoedd wedi llygru nant yng Nghoedelái, Tonyrefail, sawl gwaith.

Natural Resources Wales, 7th Dec 2020

roedd Ffermwr yn llygru 5km o afon, lladd miloedd o bysgod yn y mwyafrif achos difrifol o niwed yn bosibl...

News WalesOnline, 18 Dec 2020, (reporting incident from July 2019)



CYMRU LLE MAE GAN BAWB LE IACH A DENIADOL I FYW YNDDO; GYDA CHYSYLLTIADAU TEITHIO LLESOL; MANNAU GWYRDD CYSYLLTIEDIG O FEWN PELLTER CERDDED HAWDD I'R CARTREF; A LLE RHODDIR BLAENORIAETH I'R AMGYLCHEDD, TREFTADAETH, A MYNEDIAD I FANNAU GWYRDD A GLAS.

Mae'r dirwedd yn rhan hanfodol o'n diwylliant, gan gyfrannu at gydlyniant cymunedol a lles [ix x],. Mae'r dirwedd a chymdeithas wedi llunio llwybrau, cilffyrdd a dyfrffyrdd, ac wedi cael eu llunio ganddynt; wrth i ni grwydro i lawr at yr afon, ymdrochi, croesi rhyd, neu fynd ar gwch, byddwn yn dilyn ôl troed sawl un o'n blaenau sydd wedi dilyn yr un llwybrau ers canrifoedd. Mae defnyddio'r llwybrau hyn yn ein cysylltu â'n hanes, ein hymdeimlad o le, a'n hymdeimlad o berthyn. Pan fyddwn yn eu colli, byddwn yn colli rhan o'n hunaniaeth.

"Mae byw mewn cymdogaeth sy'n gyfeillgar i weithgaredd corfforol yn gallu darparu rhwng 32% a 59% o'r 150 munud o weithgaredd corfforol wythnosol sy'n cael ei argymell i oedolion er mwyn cynnal iechyd da[xi] .

The Lancet

Deellir pwysigrwydd cael mynediad i fannau gwyrdd [xii] ar gyfer hamdden yn agos at adref, ond prin y mae Cymru yn rhagori ar y safon ofynnol o ddarpariaeth ar y Mynegai Mannau Gwyrdd .


Honnwyd bod y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn rhoi'r 'Hawl i Grwydro' ond mae hyn ymhell o fod yn wir, gan ei bod ond yn cwmpasu 8% o gefn gwlad.

O dan y Ddeddf, mae'r rhan fwyaf o 'dir mynediad' mewn ardaloedd o ucheldir, nad ydynt yn hygyrch iawn i'r rhan fwyaf o bobl, ac mae'r ardaloedd mwyaf poblog yn tueddu i gynnig mynediad i'r ardal leiaf o fannau gwyrdd fesul person.

CAMAU ALLWEDDOL

- Ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio gyflwyno eu mannau agored i'r cyhoedd at ddibenion hamdden.
- Rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad sy'n peryglu mynediad i'r cyhoedd i fannau gwyrdd neu las.
- Creu lleiniau gwyrdd a glas o amgylch pob cymuned a datblygiad.
- Diogelu Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Hawliau Mordwyo Cyhoeddus presennol, yn cynnwys y rhai nad ydynt wedi'u pennu eto.







Nid oes gan lawer o bobl, yn enwedig y rhai mwyaf difreintiedig, fynediad i fannau gwyrdd o fewn pellter cerdded cyfforddus i'w cartref [xiii]; ac, o ganlyniad, cânt eu hamddifadu o fanteision hamdden mewn mannau gwyrdd a glas sy'n briodol i'w hanghenion.



Mae'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn eithrio dŵr mewndirol.

Mae'r sefyllfa hyd yn oed yn waeth ar gyfer mannau glas. Mae'r Ddeddf yn eithrio dŵr mewndirol rhag cael ei fwynhau fel 'tir mynediad' [xiv]. Mae gan Gymru lu o gronfeydd dŵr, y mae llawer ohonynt yn agos at ganolfannau poblog, a gallai'r rhain fod yn adnodd gwych ar gyfer gweithgareddau dŵr, neu ar gyfer treulio amser mewn mannau glas. Mae hyn yn digwydd mewn llawer o wledydd, yn cynnwys yr Alban, a rhannau o Loegr. Fodd bynnag, yng Nghymru, gwaherddir mynediad i gronfeydd dŵr, neu gellir cael mynediad cyfyngedig iddynt drwy dalu ffi.



[ix] Taylor and Lennon (2011) Cultural landscapes: A bridge between culture and nature?

[x] Russel et al (2013) Humans and Nature: How Knowing and Experiencing Nature Affect Well-Being.

[xi] http://www.ipenproject.org/documents/IPEN-Research-Brief%20Lancet%20paper%2004-16.pdf

[xii] Fields in Trust Green Space Index: http://www.fieldsintrust.org/green-space-index

[xiii] NRW Response – WG Consultation 'Improving opportunities to access the outdoors for responsible recreation https://naturalresources.wales/media/5627/improving-opportunities-to-access-the-outdoors-for-responsible-recreation-org.pdf

[xiv] https://naturalresources.wales/media/5627/improving-opportunities-to-access-the-outdoors-for-responsible-recreation-org.pdf

CYMRU LLE MAE GAN BAWB HAWL I FWYNHAU MANTEISION CORFFOROL A MANTEISION LLES CYFLEOEDD HAMDDEN CYNALIADWY MEWN MANNAU GWYRDD A GLAS MEWN FFORDD GYFRIFOL AC AM DDIM.

Mae mannau glas a gwyrdd helaeth Cymru yn ased cenedlaethol a gaiff ei wadu i lawer; oherwydd anawsterau mynediad, yr angen i deithio ac, yn aml, yr angen i dalu. Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer mynediad i'r cyhoedd i'r awyr agored yn gymhleth a chyfyngol. Mae anghydfod ynghylch hawliau mynediad i ddŵr mewndirol, ac mae grwpiau dylanwadol yn gwrthwynebu rhoi mynediad i fwy na 90% o afonydd yng Nghymru. Mae dryswch a gwrthdaro yn atal pobl rhag gwneud ymarfer corff yn yr awyr agored neu dreulio amser ym myd natur, sy'n cael effaith anghymesur ar y bobl fwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas.

Mae ein hawliau tramwy cyhoeddus a'n hawliau mordwyo cyhoeddus yn ffyrdd pwysig i bobl gael mynediad i fannau gwyrdd a glas neu archwilio ein treftadaeth. Fodd bynnag, yn llawer rhy aml, caiff hawliau cyhoeddus eu bygwth gan esgeulustod neu ymdrechion bwriadol i gymell pobl i beidio â'u defnyddio.

Mae mwy na 7,000 o Hawliau Tramwy Cyhoeddus yng Nghymru mewn perygl o gael eu diddymu yn 2026, am nad ydynt wedi'u cofnodi'n gywir ar y map swyddogol. [xv]

O dan ddeddfwriaeth Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, gallai hawliau tramwy presennol nad ydynt wedi'u cofnodi'n gywir erbyn 2026 gael eu colli am byth. Mae mwy na 7,000 o 'lwybrau coll' wedi cael eu hadnabod yng Nghymru [xvi] hyd yma , ond mae'r broses o gofnodi pob llwybr, gyda thystiolaeth, yn un hir, a wneir gan wirfoddolwyr yn bennaf.

CAMAU ALLWEDDOL

- Estyn yr 'Hawl i Grwydro' i bob ardal o dir agored, a phob ardal o ddŵr, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Sicrhau bod mynediad i fannau gwyrdd yn ofyniad i bob datblygiad.
- Darparu llwybrau 'teithio llesol' i gysylltu cymunedau â mannau gwyrdd a glas cysylltiedig.





Ceir tystiolaeth gymhellol o blaid rhoi hawliau mordwyo cyhoeddus ar bob dŵr rhedegog yng Nghymru. [xvii]



.

Yn achos dŵr mewndirol, gellir olrhain hawliau mordwyo cyhoeddus mewn cyfraith gyffredin o oes y Rhufeiniaid, drwy'r Magna Carta, hyd heddiw [xviii]. Hyd at ganol yr 20fed Ganrif, cymerwyd yr hawliau mordwyo cyhoeddus yn ganiataol; ond mae heriau diweddar i hawliau mordwyo, na chânt eu cefnogi gan dystiolaeth, ac yn aml gan bobl ddylanwadol sydd â budd yn y mater, wedi erydu hyder y cyhoedd i arfer eu hawliau; gan atgyfnerthu'r hegemoni. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod y gyfraith yn aneglur, ond eto mae ei pholisi yn seiliedig ar dderbyn un safbwynt. Er budd cyfartaledd a chyfiawnder cymdeithasol [xix], rhaid i'r llywodraeth atal hawliau mynediad rhag cael eu herydu, adfer hawliau sydd wedi'u cyfeddiannu neu eu gwadu ar gam yn y gorffennol, a rhoi pwys cyfartal i honiadau y ceir anghydfod yn eu cylch.



[xv] A definitive map is prepared by a surveying authority and is a legal record of the public's rights of way

[xvi] https://www.ramblers.org.uk/news/latest-news/2020/november/dont-lose-your-way-reveals-lost-historic-paths.aspx

[xvii] www.watersofwales.org/The-Common-Law-Public-Right-of-Navigation.pdf

[xviii] http://www.riveraccessforall.co.uk/what_is_the_evidence.php#Evi

[xix] "Access to inland water in Wales is a right of equity and social justice." Press release by the Welsh Assembly Petitions Committee 2009. http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/wales_politics/8000079.stm

CYMRU LLE CAIFF Y CYHOEDD EU HANNOG A'U GRYMUSO I YMGYSYLLTU'N GADARNHAOL Â'R AMGYLCHEDD, GAN GYMRYD CYFRIFOLDEB AM EU GWEITHREDOEDD EU HUNAIN, GAN GOD YMDDYGIAD A GAIFF EI ORFODI'N GYFREITHIOL SY'N NODI CYFRIFOLDEBAU POB PARTI.

Yn aml, bydd tirfeddianwyr a deiliaid yn dweud eu bod yn ofni y cymerir camau ymgyfreitha yn eu herbyn am wrthwynebu mynediad, ond ni ddylai hyn eu hatal. Mae'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn lleihau atebolrwydd y deiliaid i unrhyw un sy'n defnyddio tir mynediad o dan y Ddeddf drwy sicrhau nad yw'n atebol am unrhyw anaf a achosir gan unrhyw nodwedd naturiol, unrhyw gwrs dŵr nac unrhyw nodwedd ffiniol (ac eithrio drwy ddefnyddio giât neu gamfa yn briodol) [xx].

Gellid estyn diogelwch atebolrwydd tirfeddianwyr i bob hawl mynediad.

Gellid estyn y diogelwch sydd gan dirfeddianwyr ar hyn o bryd ar dir mynediad a gwmpesir gan y Ddeddf i bob hawl mynediad; gallai agor mynediad i dir a dŵr leihau'r baich ar dirfeddianwyr, drwy alluogi mwy o ddiogelwch rhag atebolrwydd.

Caiff sbwriel a mathau eraill o ymddygiad anghyfrifol eu nodi fel rhesymau dros wahardd y cyhoedd o gefn gwlad. Mae hawliau sydd wedi'u hymgorffori mewn deddfwriaeth, gyda chyfrifoldebau wedi'u dogfennu i'r amgylchedd, bywyd gwyllt a phobl eraill, yn rhoi eglurder a hyder i bob parti. Heb ddeall hawl mynediad yn glir, ni allwn nodi cyfrifoldebau cysylltiedig yn glir


.

CAMAU ALLWEDDOL

- Defnyddio'r dull atebolrwydd deiliaid a ddefnyddir yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn gyson mewn perthynas â phob hawl mynediad.
- Creu cod ymddygiad sydd wedi'i gynllunio i gwmpasu pob gweithgaredd cynaliadwy, gan nodi hawliau a chyfrifoldebau pawb, sy'n rhwymo pob parti yn gyfreithiol.







Dyma rai enghreifftiau:

Yn yr Alban: gallwch fynd ar y rhan fwyaf o dir i fwynhau'r awyr agored – ar yr amod eich bod yn ymddwyn yn gyfrifol. Gelwir hyn yn hawliau mynediad yr Alban ac mae'r sefyllfa'n wahanol i'r hyn a geir yng Nghymru a Lloegr.Pan fyddwch yn mwynhau'r awyr agored, rhaid i chi ddilyn Cod Mynediad Awyr Agored yr Alban. Mae'r Cod yn seiliedig ar dair egwyddor allweddol:Respect the interests of others.

- Parchu buddiannau pobl eraill.
- Gofalu am yr amgylchedd.
- Cymryd cyfrifoldeb am eich gweithredoedd eich hun.[xxi]

Yn Norwy: Mae hamdden yn yr awyr agored wedi dod yn rhan o hunaniaeth genedlaethol ac mae wedi'i sefydlu'n rhan o'r gyfraith. Rydych yn rhydd i fwynhau'r awyr agored ac anadlu cymaint o awyr iach ag y dymunwch – ar yr amod eich bod yn casglu eich sbwriel ac yn parchu byd natur.

Mae'r prif reolau yn hawdd:Byddwch yn ystyriol a meddylgar. Peidiwch â niweidio byd natur a'r amgylchedd. Gadewch y dirwedd fel y byddech am ei ganfod.[xxii]

Yn Sweden: "Mae Hawl Mynediad i'r Cyhoedd yn hawl unigryw i grwydro'n rhydd yng nghefn gwlad. Ond mae angen cymryd cyfrifoldeb yn hyn o beth – gofalu am fyd natur a bywyd gwyllt a dangos ystyriaeth o dirfeddianwyr a phobl eraill sy'n mwynhau cefn gwlad. Mae Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd Sweden yn crynhoi Hawl Mynediad i'r Cyhoedd yn yr ymadrodd 'Peidiwch ag amharu - Peidiwch â dinistrio[xxiii]



[xx]"Section 13 of the CROW Act reduces the occupiers' liability under the Occupiers' Liability Act 1957 to anyone accessing CRoW access land by removing their liability of any injury caused by any natural feature, any watercourse or by any boundary feature (except by proper use of a gate or stile)."

[xxi] https://www.outdooraccess-scotland.scot/act-and-access-code/scottish-outdoor-access-code-visitors-and-land-managers/what-scottish-outdoor-access-code

[xxii] https://www.visitnorway.com/plan-your-trip/travel-tips-a-z/right-of-access/

[xxiii] https://visitsweden.com/what-to-do/nature-outdoors/nature/sustainable-and-rural-tourism/about-the-right-of-public-access/

CYMRU LLE MAE DEALLTWRIAETH O FYD NATUR, DIOGELWCH YN YR AWYR AGORED AC ASESIAD O RISGIAU A MANTEISION YN SAIL I ADDYSG AR BOB LEFEL.

Yn rhy aml, mae awdurdodau lleol, tirfeddianwyr a deiliaid yn gweithredu ar sail y gred y bydd rheoli gweithgareddau, cyfyngu arnynt neu eu gwahardd yn cadw pawb yn ddiogel; neu y dylid rhyddhau'r perchennog/deiliad oddi wrth atebolrwydd os caiff rhywun ei anafu. Yn aml, mae'n ymddangos mai nod arwyddion yw 'codi ofn' ar y cyhoedd a'u cymell i beidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau, yn hytrach na rhoi gwybodaeth ddefnyddiol, ffeithiol i'w helpu i wneud penderfyniadau deallus a chyfrifol.

Fodd bynnag, mae diwylliant rhy wrth-risg yn wrthgynhyrchiol. Mae'n gwadu'r cyfle i bobl ddysgu sut i asesu risg a gwneud dewisiadau ymddygiadol cytbwys yn yr awyr agored; sgiliau a fydd yn eu helpu drwy gydol eu bywydau. Mae hefyd yn gwadu'r cyfle a'r gallu i bobl gael budd o ymgysylltu â byd natur.

"Do not destroy the appeal of wild and remote places by putting up signs and fences; or making paths to urban standards. People should be free to participate in high risk or adventurous activities provided they are aware of the risks." [xxiv]

Visitor Safety Group Guiding Principles Visitor Safety in the Countryside

Os bydd ysgolion, grwpiau ieuenctid neu gymdeithas ehangach yn ofni cyflwyno'r awyr agored i blant a phobl ifanc, bydd dolen hanfodol yn cael ei cholli o ran y modd y mae'r cyhoedd yn cysylltu â byd natur, ar draul eu gallu i wneud penderfyniadau doeth ac ymddwyn yn gyfrifol.

"People protect what they love, love what they understand and understand what they're taught."


Jacques Cousteau

CAMAU ALLWEDDOL

- Sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i dreulio cyfnodau rheolaidd ac estynedig o amser ym myd natur, ar bob cam o'i addysg, gan roi cyfle cyfartal i bob plentyn gymryd rhan ni waeth beth fo'i statws na'i allu i dalu.
- Meithrin dealltwriaeth o fyd natur, a sgiliau bywyd hanfodol yn yr awyr agored fel asesu risgiau a manteision, hunangynhaliaeth, canfod y ffordd, a nofio, wrth ddysgu yn y blynyddoedd cynnar a thrwy gydol eu haddysg.
- Cyflwyno rhaglen ehangach o addysg i'r cyhoedd ar ddeall byd natur, hawliau yn yr awyr agored, a'r cyfrifoldebau a ddaw gyda hawliau.



[xxiv] Visitor Safety Group Guiding Principles Visitor Safety in the Countryside: (vscg.org)











MAE DYFROEDD CYMRU YN RHAN O'R YMDDIRIEDOLAETH MYNEDIAD A CHADWRAETH MANNAU GLAS

Ein Gweledigaeth

Sicrhau y gall pob aelod o'r cyhoedd ymgysylltu'n gadarnhaol â'n dyfroedd, ein mannau glas a'r amgylchedd ehangach; a mwynhau eu hawliau hamdden mewn mannau glas cynaliadwy.

Ein Cenhadaeth

Bod yn hyrwyddwr; a helpu i rymuso aelodau o'r cyhoedd i fod yn hyrwyddwyr; ar gyfer ein hamgylchedd dyfrol a morol a'n mannau glas. Diogelu hawliau a rhyddid pawb sydd am gael cysur neu fwynhad o weithgareddau hamdden cynaliadwy mewn dŵr neu ar lan dŵr.

Rhif elusen. 1190101

ymholiadau: admin@watersofwales.org